## Y Pwyllgor Archwilio AC-08-02(p3)

**Dyddiad:** 21 Tachwedd 2002

**Amser:** 13:30

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Crynodeb o gasgliadau ac argymhellion**

*Ar berfformiad ariannol cyffredinol GIG Cymru*

i. Derbyniwn iddi fod yn angenrheidiol darparu cyllid cynorthwyol strategol er mwyn galluogi rhai ymddiriedolaethau GIG arbennig i gyflawni eu cynlluniau adfer ariannol. Derbyniwn ymhellach y byddai'n afresymol i roi baich dyledion eu rhagflaenwyr ar y sefydliadau GIG newydd. Fodd bynnag, rydym yn bryderus y gellir ystyried camau o'r fath fel dull o wobrwyo perfformiad ariannol gwael ac y gallai fod yn wrthanogol i sefydliadau gochelgar.

   **Ymateb**

   **Dim ond pan fo cynllun adfer cymeradwy yn ei le y darperir cyllid cynorthwyol strategol. Yn ogystal ag ysgwyddo'r baich gweinyddol o lunio cynllun adfer, rhaid i Ymddiriedolaethau GIG sy'n gorfod dilyn cynlluniau o'r fath gael cymeradwyaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol, er enghraifft penodi ymgynghorwyr meddygol newydd. Mae'r cyfyngiadau hyn yn cymell ymddiriedolaethau i geisio osgoi gorfod dilyn cynlluniau adfer ariannol, trwy barhau i fod yn sefydlog yn ariannol.**

   **Er mwyn manteisio ar y trefniadau canslo dyledion a gyhoeddodd y Gweinidog ym mis Ionawr 2002, rhaid i Ymddiriedolaethau ddangos eu bod yn medru cynnal cydbwysedd ariannol, heb gymorth ariannol gan y Cynulliad, am o leiaf ddwy flynedd.**

ii. Mae ailstrwythuro GIG Cymru a darparu cyllid ychwanegol i'r GIG sy'n deillio o'r gyllideb yn gyfle rhagorol ddechrau o'r newydd. Rydym yn argymell yn gryf felly y dylai Cyfarwyddiaeth y GIG fanteisio ar y cyfle hwn i sicrhau bod holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru yn sylweddoli bod angen sefydlogrwydd ariannol ac y dylid gweithredu o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddynt. Rydym yn awgrymu hefyd y byddai'n briodol i Gyfarwyddiaeth y GIG amlinellu'n glir o'r cychwyn o dan ba amgylchiadau eithriadol y byddai benthyciadau sy'n rhaid eu had-dalu ar gael.

**Ymateb**

**Derbyniwyd. Am y tro cyntaf erioed, mae Adran GIG Cymru wedi cychwyn proses Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid yn ystod 2002-03. Mae'r broses hon yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau'r GIG ddangos sut y gellir cyflawni blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru, a blaenoriaeth eraill o ran darparu gwasanaethau, o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddynt. Mae'r broses hon yn pwysleisio'r rheidrwydd sydd ar bob un o sefydliadau'r GIG i gynllunio er mwyn sicrhau cydbwysedd ariannol, er nad yw hyn wedi bod yn bosibl ym mhob rhan o Gymru yn ystod 2002-03. Pan na ellir osgoi diffyg ariannol, mae'n rhaid i sefydliadau'r GIG dderbyn gwiriad annibynnol bod yr holl gamau priodol wedi'u cymryd. Pan bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi unrhyw fenthyciadau ad-daladwy er mwyn cynorthwyo â diffyg ariannol, bydd telerau'r benthyciad hwnnw'n cael eu nodi'n glir i'r sefydliadau dan sylw.**

iii. Nodwn y mesurau a gymerwyd hyd yma i wella cywirdeb y rhagolwg ariannol. Edrychwn ymlaen am gadarnhad ffurfiol o'r canlyniadau ar gyfer 2001-02 a hyd yn oed gwell canlyniad ar gyfer 2002-03. Argymhellwn fod Cyfarwyddiaeth y GIG a chyrff GIG yn parhau i weithredu mesurau priodol i wella'u rhagolwg ariannol, er mwyn sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio cyn gynted â phosib i sicrhau'r lefel uchaf o ofal i gleifion.

**Ymateb**

**Roedd yr alldro yn ystod 2001-02, sef diffyg net o £15.2 miliwn, o fewn y rhagolwg o ddiffyg net rhwng £16.8 miliwn ac £8.6 miliwn a nodwyd ym mharagraff 2.28 adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Mae Adran GIG Cymru yn parhau i gydweithio'n agos â'r GIG er mwyn gwella'r prosesau sy'n darparu rhagolygon ariannol.**

iv. Rydym yn parhau'n bryderus iawn am gost cynyddol hawliadau esgeulustod clinigol. Mae costau o'r fath yn creu bwlch mawr yn narpariaeth ariannol ychwanegol y GIG, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Ganghellor y Trysorlys. Hyderwn y bydd yr arolwg allanol o drefniadau rheoli'r Pwll Risg yng Nghymru yn ystyried pob agwedd ar reoli hawliadau o'r digwyddiad i'r modd y caiff ei ddatrys a'r setliad.

v. Dylai unrhyw system newydd ar gyfer rheoli esgeulustod clinigol ddysgu oddi wrth arferion gorau mewn mannau eraill a chynnwys cymhellion mewnol er mwyn darparu'r safonau gorau posibl o ofal i gleifion, lleihau achosion a gwariant ar esgeulustod clinigol a darparu gwerth am arian i'r trethdalwyr.

vi. Er nad ydym yn beirniadu Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Dinbych, gofynnwn a yw gweithredu'r Pwll gan un corff GIG ar ran GIG Cymru gyfan yn dal yn briodol o ystyried cymhlethdod cynyddol rheoli a datrys hawliadau a'r swm o arian sy'n gysylltiedig â hyn bellach. Mae'r gwaith presennol i ailstrwythuro GIG Cymru yn cynnig cyfle gwych i edrych o'r newydd ar y trefniadau hyn a hyderwn yr eir i'r afael â'r mater fel rhan o'r adolygiad.

**Ymateb**

**Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd rhan mewn adolygiad ledled Cymru a Lloegr o'r system rheoli esgeuluso clinigol, sy'n edrych ar ffyrdd o wneud y system yn gynt ac yn decach, ymysg materion eraill. Disgwylir i'r tîm adolygu adrodd yn ystod yr hydref, a bydd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn derbyn adroddiad wedi hynny.**

**Mae Adolygiad Allanol Pwll Risg Cymru wedi bod yn adolygu pob agwedd ar reoli hawliadau, o'r digwyddiad i'r modd y caiff ei ddatrys.**

**Mae cylch gorchwyl yr adolygiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo ystyried yr arferion gorau yn y GIG a'r sector masnachol. Yn ogystal, rhaid iddo ystyried datblygiadau ehangach ym meysydd polisi a'r gyfraith sy'n debygol o effeithio ar hawliadau esgeulustod clinigol ym Mhrydain, gan gynnwys y newidiadau strwythurol i'r GIG yng Nghymru. Mae'r adolygiad hefyd yn ystyried gosod premiymau i'w talu gan gyrff iechyd, ac mae'n ystyried trefniadau gweithredu Pwll Risg Cymru yn y dyfodol.**

**Mae'r adolygiad wedi derbyn cyngor proffesiynol ac arbenigol perthnasol, a bydd yn argymell parhau i ddarparu cymorth i Bwll Risg Cymru a system reoli hawliadau GIG Cymru. Disgwylir i'r tîm adolygu adrodd i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Medi 2002.**

vii. Rydym yn croesawu'r gwelliant ym mherfformiad talu prydlon ond yn pwysleisio bod angen ymdrechion pellach i sicrhau bod pob bil dilys yn cael ei dalu cyn pen y targed terfynol o 30 diwnod. I'r perwyl hwn rydym hefyd yn croesawu'r bwriad i gyflwyno targed statudol ar gyfer 2003-04. Pwysleisiwn y dylai'r targed allweddol fod yn berthnasol i nifer, yn hytrach na gwerth, y biliau a dalwyd er mwyn sicrhau nad anghofir am gyflenwyr bach.

**Ymateb**

**Bellach, mae deuddeg o'r pymtheg Ymddiriedolaeth yng Nghymru wedi rhoi system ariannol newydd ar waith, a fydd yn sicrhau y caiff perfformiad ledled Cymru ei fesur yn gyson. Mae'r sefydliadau eraill hefyd wedi'u cyfarwyddo i ddilyn yr un gweithdrefnau monitro. Er ei bod yn anorfod y bydd yn rhaid datrys materion sy'n ymwneud â rhoi'r system ar waith, dylai sicrhau proses dalu fwy effeithiol trwy ddefnyddio datblygiadau technolegol i brynu, anfon talebau, awdurdodi a thalu. Caiff perfformiad sefydliadau'r GIG o ran talu'n brydlon ei fonitro'n fisol gan Adran GIG Cymru, ac fe seilir hynny ar nifer, nid gwerth, yr anfonebau a dalwyd.**

viii. Rydym yn argymell hefyd bod Cyfarwyddiaeth y GIG yn sicrhau bod y targed yn cael ei gymhwyso a'i fesur mewn modd cyson ym mhob corff GIG. Rydym yn ystyried y dylai'r targed

ganolbwyntio ar daliadau i gyflenwyr allanol ac ni ddylai gynnwys cyflogau na thaliadau o fewn y GIG.

**Ymateb**

**Derbyniwyd. Mae gweithgor, sy'n cynnwys cynrychiolwyr sefydliadau'r GIG ac Adran GIG Cymru, wrthi ar hyn o bryd yn ystyried sut i fesur y targed.**

ix. Rydym yn annog Cyfarwyddiaeth y GIG i gydweithio ag Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin ac Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro a chymryd pob cam rhesymol i wella'u sefyllfa ariannol. Rydym yn arbennig o bryderus am or-ddibynnu ar staff asiantaeth a chost defnyddio staff o'r fath, yn ogystal â'r effaith bosibl y gallai hyn ei chael ar safon gofal cleifion.

**Ymateb**

**Mae Adran GIG Cymru yn cydweithio'n agos ag Ymddiriedolaeth Caerdydd a'r Fro ac Awdurdod Iechyd Bro Taf er mwyn cytuno ar sut i wella'r sefyllfa ariannol. Cynhelir cyfarfod rhwng y tri sefydliad ym mis Hydref, lle y bydd cynlluniau'r Ymddiredolaeth i adfer cydbwysedd ariannol, gan gynnwys trefniadau cyhoeddi ac ad-dalu benthyciadau os oes eu hangen, yn cael eu hystyried. Mae Adran GIG Cymru yn cymryd camau i fynd i'r afael â chost cynyddol defnyddio staff nyrsio asiantaeth, yn ogystal ag effaith hynny ar y gwasanaeth. Cyflwynwyd papur i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (HSS 16-02) yn manylu ar y camau arfaethedig.**

**Mae Adran GIG Cymru, Awdurdod Iechyd Dyfed Powys ac Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin wedi sefydlu grp adolygu gwasanaeth strategol er mwyn ystyried patrwm y gwasanaethau ar draws y de-orllewin. Yn ogystal, mae Prif Weithredwr newydd Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin yn bersonol wedi cymryd cyfrifoldeb i gyfarfod â phob aelod staff sy'n gyfrifol am gyllideb fewnol, er mwyn sicrhau y caiff sefyllfa ariannol yr ymddiriedolaeth ei hadfer i lefel gynaliadwy.**

x. Rydym yn bryderus am yr amser a gymer i gynhyrchu cynllun adfer derbyniol ar gyfer ardal economi iechyd Gwent ac yn disgwyl i gynllun derbyniol gael ei gwblhau yn ddiymdroi. Rydym yn cytuno â barn Mrs Lloyd fod swyddogaeth rheolwyr y GIG wedi newid yn sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf. Rydym yn nodi bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod rheolwyr GIG yn gallu elwa ar ddatblygiad proffesiynol parhaus ac yn meddu ar y dulliau angenrheidiol i reoli sefydliadau cymhleth mewn ffordd effeithiol. Rydym hefyd yn cytuno mai cyfrifoldeb Cyfarwyddiaeth y GIG yw gwneud yn glir yr hyn a ddisgwylir gan reolwyr GIG, er mwyn eu cynorthwyo i reoli'r amgylchedd y maent yn gweithio ynddo bellach.

**Ymateb**

**Ym mis Awst 2002, rhoddodd Adran GIG Cymru gymeradwyaeth amodol i gynllun adfer Gwent. Mae risgiau o hyd o fewn y cynllun, ond mae Adran GIG Cymru yn monitro'r rhain yn ofalus.**

**Mae Adran GIG Cymru wedi ymrwymo i gynorthwyo datblygiad proffesiynol parhaus staff y GIG, gyda phwyslais cynyddol ar hyfforddi a datblygu sgiliau rheoli ac arwain. Bydd Adran GIG Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i reolwyr lynu wrth God Ymarfer a sicrhau eu bod yn datblygu'n broffesiynol yn barhaus.**

*Ar brisio presgripsiynau*

xi. Rydym yn siomedig â'r oedi pellach i glirio ôl-groniad prisio presgripsiynau a'r oedi cyn adennill gordaliadau i fferyllwyr. Mae'r oedi annerbyniol hwn wedi cael effaith andwyol ar yr ymdrechion i wella'r rhagolygon ariannol. Yn ogystal, mae'r prinder gwybodaeth presennol ynghylch tueddiadau rhagnodi meddygon teulu wedi'i gwneud yn anoddach rheoli cost cyffuriau. Rydym yn disgwyl i Gyfarwyddiaeth y GIG ac Atebion Iechyd Cymru sicrhau nad oes oedi pellach ac y bydd yr holl fater truenus wedi dod i ben ymhell cyn diddymu'r awdurdodau iechyd yn 2002-03.

**Ymateb**

**Mae'r Uned Gwasanaethau Rhagnodi bellach wedi dychwelyd i'r cyfnodau gweithio arferol ar gyfer cwblhau gwaith prisio cyfredol. Mae'r Cynulliad wedi darparu cyllid ychwanegol ar gyfer yr Uned er mwyn sicrhau y cynhelir y lefelau cynhyrchu presennol, ac mae perfformiad yr Uned yn cael ei fonitro'n rheolaidd.**

**Mae'r chwe mis o ôl-groniad (o fis Hydref 1999 tan fis Mawrth 2000) bellach yn cael ei glirio, a bydd y gwaith hwnnw wedi'i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Bydd y gwaith o adennill gordaliadau i fferyllwyr yn dechrau cyn gynted ag sy'n ymarferol, a gwneir pob ymdrech i adennill yr holl arian erbyn mis Ebrill 2003. Serch hynny, o dan delerau'r cynnig a wnaed i fferyllwyr i wneud taliadau wedi'u seilio ar samplau, cytunwyd y byddai gordaliadau yn cael eu hadennill dros gyfnod o chwe mis, yn unol â'r trefniadau i adennill dyledion eraill. Cynghorwyd contractwyr sy'n profi anawsterau i gwrdd â'r dyddiadau hyn i gysylltu â'u hawdurdod iechyd, a fydd yn ystyried achosion unigol yn ôl eu teilyngdod.**

**Ceir gwybodaeth ar dueddiadau rhagnodi meddygon teulu yn yr ateb i (xii) isod.**

xii. Nodwn fod cyfran o wybodaeth sy'n ymwneud â rhoi presgripsiwn ac sy'n berthnasol i'r flwyddyn 2000 wedi'i rhyddhau i'r cyhoedd yn ddiweddar. Hyderwn y bydd y wybodaeth yn cael ei diweddaru ac yr ychwanegir ati yn rheolaidd fel y gall tueddiadau rhagnodi a'r costau cysylltiedig gael eu rheoli mewn dull mwy strwythuredig gan y byrddau iechyd lleol newydd.

**Ymateb**

**Bydd yr Uned Gwasanaethau Rhagnodi yn darparu adroddiad blynyddol i'r Cynulliad, i'w gyhoeddi ar Wasanaeth Gwybodaeth Iechyd Cymru (HOWIS), o fewn 2 fis calendr i gwblhau'r gwaith o brisio presgripsiynau mis Rhagfyr. O dan y Cytundeb Lefelau Gwasanaeth sydd gan y Cynulliad ag Atebion Iechyd Cymru, mae Meddygfeydd a Grwpiau Iechyd Lleol (a'r Byrddau Iechyd Lleol sy'n eu disodli) yn derbyn adroddiadau misol am wybodaeth rhagnodi o fewn 12 diwrnod gwaith i'r adeg y cwblheir y gwaith o brisio presgripsiynau pob mis. Mae'r wybodaeth hon yn ein galluogi i fonitro tueddiadau rhagnodi yn rheolaidd.**

xiii. Yn ein barn ni, mae'n hanfodol bod yr awdurdodau iechyd yn gwneud amcangyfrif rhesymol a chadarn o'r prinder mewn refeniw o'r taliadau presgripsiwn, ac yn defnyddio hwn fel man cychwyn ar gyfer cymryd camau gweithredu priodol i herio twyll a chamgymeriad. Nodwn y camau gweithredu a gyflawnwyd hyd yma ac argymhellwn fod yr awdurdodau iechyd yn parhau i weithio'n agos gyda'u harchwilwyr penodedig ac Atebion Iechyd Cymru i fynd i'r afael â'r mater hwn.

**Cytunwyd**.

*Ar dwyll yn y GIG*

xiv. Rydym yn croesawu'r gwaith sydd ar y gweill gyflawnir i asesu graddau y ceir twyll yn y GIG yng Nghymru ac yn edrych ymlaen at weld y canlyniadau. Rydym hefyd yn croesawu'r mesurau sy'n cael eu gweithredu i gynyddu ymwybyddiaeth o dwyll a'i effaith ar goffrau'r wlad. Mae angen trin y mesurau a weithredir i atal twyll yn sensitif, fel nad yw pobl Cymru'n ofni hawlio pan fyddant yn gymwys i wneud hynny. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor i sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am orfodi rheoliadau yn y man y darperir gwasanaeth yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Gall fod angen newid systemau ar gyfer hyn er mwyn cynnwys camau i osgoi twyll mewn gweithdrefnau gweithredu.

**Ymateb**

**Disgwylir canlyniadau'r Ymarfer Mesur Risg Presgripsiynau ym mis Hydref 2002, a bydd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn derbyn adroddiad arnynt.**

**Ym mis Gorffennaf 2002, llofnododd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyfres o siarteri atal twyll gyda chymdeithasau proffesiynol a'r cyrff rheoleiddio priodol o fewn y GIG ar gyfer meddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr ac optegwyr. Mae'r siarteri yn dangos bod dealltwriaeth gyffredin ymysg yr holl gyrff bod yn rhaid mynd i'r afael â thwyll yn y GIG yng Nghymru, ac maent yn rhan o raglen i sicrhau**

**newid diwylliannol. Cynhelir adolygiadau blynyddol o'r modd y mae'r siarteri'n gweithio.**

**Yn ogystal, fel rhan o'r rhaglen newid diwylliant, bwriedir rhoi nifer o Gyflwyniadau ar Ymwybyddiaeth o Dwyll i Bwyllgorau Cynrychioliadol Lleol ledled Cymru yn ystod mis Hydref. Bydd y rhain yn ategu'r gofyniad ar i gontractwyr gynnal profion atal twyll.**

*Ar ailstrwythuro*

xv. Nodwn y bydd Cyfarwyddiaeth y GIG yn amcangyfrif costau ailstrwythuro a byddem yn gwerthfawrogi diweddariad rheolaidd ar y gwir gostau yn ystod y blynyddoedd nesaf. Rydym yn cytuno â'r Archwilydd Cyffredinol bod yn rhaid gallu amddiffyn diswyddiadau ac ymddeoliadau cynnar yn gyhoeddus erbyn hyn, a nodwn yn y cyd-destun hwn bod Cyfarwyddiaeth y GIG bellach wedi rhoi cyfarwyddyd ar doriadau staff. Rydym yn annog Cyfarwyddiaeth y GIG i weithredu ymhellach ar argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol gan ddarparu cyngor, fel y bo'n briodol, ar ddrafftio contractau cyflogaeth newydd.

**Ymateb**

**Cyflwynwyd amcangyfrifon o gostau rhaglen ailstrwythuro GIG Cymru i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 17 Gorffennaf (Atodiad A i HSS-16-02 (p.1)). Maent yn nodi y caiff y rhaglen ailstrwythuro ei seilio ar y rhagdybiaeth na fydd cynnydd yn y costau gweithredu o gostau'r strwythurau presennol, ac y bydd y costau trawsnewid rhwng £12.5 miliwn a £15.5 miliwn dros y pedair blynedd ariannol 2001-2002 tan 2004-2005. Bydd yr amcangyfrifon, y rhagdybiau a'r cyfrifiadau hyn yn destun adolygiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ystod mis Medi/mis Hydref 2002 er mwyn rhoi sicrhad annibynnol eu bod yn ffigurau cadarn a derbyniol. Bydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn derbyn gwybodaeth lawn yn rheolaidd am gostau gwirioneddol y gwaith o ailstrwythuro.**

**Tra'n ceisio diwallu'r angen am ganllawiau mwy ffurfiol a chlir ar ddrafftio contractau cyflogaeth newydd, mae Adran GIG Cymru wrthi ar hyn o bryd yn datblygu contract cyflogaeth cyffredin ar gyfer yr holl staff sy'n cael eu cyflogi gan y Byrddau Iechyd Lleol.**